

## Bwletin 4 - 20/5/20

Annwyl Riant / Ofalwr,

Rwy'n gobeithio eich bod chi a'ch teulu yn dal i gadw'n iach ac yn ddiogel yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn. Diolch i chi i gyd am y gefnogaeth yr ydych yn parhau i'w rhoi i'ch plant ac i'r ysgol wrth i ni Ddysgu o Hirbell. Mae'r athrawon yn brysur yn paratoi gwersi ac yn asesu tasgau o hyd, ac rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrech mae'r dysgwyr yn ei rhoi i'w gwaith.



Fel y gwyddoch, yr wythnos nesaf fe fydd hi'n wythnos hanner tymor, ac er y bydd athrawon yn dal i wasanaethu'r Hwb i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus ar safle Ysgol Glantaf, ni fydd gwaith yn cael ei osod i ddysgwyr tan y 1af o Fehefin wrth i ni ail-afael yn y Dysgu o Hirbell. O ddarllen sylwadau Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, does dim awgrym eto y bydd Ysgol Glantaf yn ail-agor yn y dyfodol agos. Nodwyd ganddi bod pum egwyddor allweddol wrth benderfynu pryd a sut y bydd ysgolion yn dychwelyd i ddarparu addysg ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr a'r egwyddor gyntaf, a'r bwysicaf, yw diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol myfyrwyr a staff.

### Wythnos Lles 18fed – 22ain o Fai

Dyna reswm arall felly am gefnogi Wythnos Lles a Chodi Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yr wythnos hon. Mae pob disgybl o flwyddyn 7-13 wedi derbyn tasgau sy'n hybu pwysigrwydd Lles meddyliol. Cafodd y tasgau am yr wythnos eu rhannu ar blatfform Google Classroom fore Llun yn hytrach na thasgau pynciol. Tasgau ysgafn, amrywiol ydynt i hybu iechyd a lles y dysgwyr. Mae gan y dysgwyr ryddid i ddewis pa dasgau i'w gwneud yn ôl eu diddordebau e.e. her Lego, creu cwis, creu rhestr chwarae caneuon ayyb. Bydd disgyblion Bl 11,12,13 a staff yr ysgol yn rhith gerdded pellter o 152km (cyfanswm hyd yr afonydd Taf, Elai a Rhymni yng Nghaerdydd). Y bwriad yw codi arian i elusen Banciau Bwyd Caerdydd. Os ydych am ein cefnogi yna dilynwch y ddolen <https://www.justgiving.com/fundraising/chweched-glantaf1>. Mae'r ysgol yn parhau i gysylltu yn gyson â nifer o rieni wrth i'r angen godi, ac mae croeso mawr i chi gysylltu â ni yn ôl y galw drwy'r Arweinwyr Cynnydd a Lles.

### Holiadur i Rieni

Diolch yn fawr iawn i'r nifer fawr ohonoch chi a lenwodd yr holiadur i rieni ynghylch Dysgu o Hirbell. Roedd y canlyniadau'n galonogol iawn gyda'r mwyafrif helaeth yn credu bod ein disgygliadau o'n dysgwyr yn rhesymol wrth osod tasgau. Rydym yn falch bod cynifer o rieni'n hapus gyda'n darpariaeth ac yn gwerthfawrogi gwaith caled a diflino'r athrawon gan ystyried bod nifer ohonynt gartref yn gofalu am eu teuluoedd hwythau – nifer ohonynt â phlant bach - tra'n ceisio parhau â'u cyfrifoldebau a chadw cydbwysedd rhwng bywyd teuluol a gwaith.

Yn amlwg, nid da lle gellir gwell a diolch i chi am eich awgrymiadau ynghylch y ffordd ymlaen. Un o'r pwyntiau a godwyd gan rai ohonoch oedd y byddech yn dymuno gweld gwersi yn cael eu dysgu yn fyw ar-lein drwy gyfrwng Zoom neu blatfform tebyg. Nid ydym yn bwriadu dilyn y trywydd hwnnw ar hyn o bryd am nifer o resymau. Efallai bod digon o gyfrifiaduron yn eich cartref chi fel y gall pob un o'ch plant fod ar-lein yr un pryd yn ystod gwrs ar amser penodol, efallai bod cyswllt y we yn ddigon cryf a chyflym yn eich cartref chi, efallai nad oes gofynion a disgygliadau teuluol eraill ar eich plant chi - ond nid yw hynny'n wir am bob plentyn yn y dosbarth ac, yn bendant, nid yw hyn yn wir am ein hathrawon.

Drwy osod gwaith ar Google Classroom, mae'n rhoi'r cyfle i'r dysgwr weithio ar dasg yn ei amser ei hun ar adeg sy'n gyfleus iddo/iddi. Gall y dysgwyr anfon neges i'w hathrawon unrhyw bryd drwy gyfrwng Google Classroom neu dros e-bost os ydynt am esboniad neu gymorth o unrhyw fath. Bydd yr athro yn ymateb i'r dysgwr ar amser sy'n gyfleus i'r athro. Wedi dweud hyn, bwriadwn arbrofi gyda recordio mwy o glipliau fideo a sain o athrawon yn esbonio tasgau neu yn rhoi adborth ar ôl y gwyliau hanner tymor. Mae sawl athro eisoes yn gwneud hyn. Atgoffwch eich plant i wirio eu cyfrif Gmail am negeseuon gan eu hathrawon.

Pryder arall a godwyd gan rieni di-Gymraeg oedd y ffaith nad oedd eu plant yn ymarfer yr iaith ar lafar ar hyn o bryd, a'u bod hwythau – fel rhieni – yn cael trafferth deall cyfarwyddiadau'r gwaith sydd yn y Gymraeg. Ar ôl y gwyliau hanner tymor, bwriadwn gynnal mwy o dasgau gwaith grŵp i'r dysgwyr eu cwblhau o fewn dosbarth er mwyn eu hannog i gysylltu a chyfathrebu gyda'i gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg; Mae Llyfrgelloedd Caerdydd yn cynnig gwasanaeth e-lyfrau i'w lawrlwytho am 21 diwrnod <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Llyfrgelloedd-ac-archifau/eLyfrau/Pages/default.aspx> ac, wrth gwrs mae S4C ac S4C Clic yn adnoddau sy'n llawn rhaglenni amrywiol, gwerthfawr.

O ran cyfarwyddiadau gwaith y disgyblion, mae Mr Owens, Pennaeth TGCh yr ysgol, wedi uwchlwytho canllawiau ar YouTube yn esbonio sut i newid tudalen o fod yn y Gymraeg i'w dangos yn y Saesneg gan ddefnyddio Google Translate Add-On ar gyfer Google Chrome <https://youtu.be/sLYy3loFJcM> - fel a nodwyd mewn bwletin diweddar i rieni.

### **Blwyddyn 13**

Disgwyliwn fod y myfyrwyr wedi cwblhau eu cyrsiau Safon Uwch, yn unol â'r amserlen flynyddol i flwyddyn 13. Dylent fod yn gwirio gwefan UCAS am unrhyw ddiweddariadau, yn ogystal â gwirio tudalen adrannol y prifysgolion o'u dewis. Dyddiad ymateb i unrhyw gynigion a dderbynnir cyn y 4ydd o Fehefin yw'r 18fed o Fehefin. Dylent hefyd fod wedi prosesu cais Cyllid Myfyrwyr Cymru, wrth ymweld â <https://www.studentfinancewales.co.uk/>

Os ydynt yn bwriadu gwneud cais am brentisiaethau neu eisiau cymorth gyda llwybr gyrfa dylai'r myfyrwyr fynd ar wefan [www.gyrfacymru.llyw.cymru](http://www.gyrfacymru.llyw.cymru) Mae hwn hefyd yn gyfle gwych i'r myfyrwyr oll fwrw ati â thasgau i'w paratoi ar gyfer cyrsiau Prifysgol mis Medi neu ddilyn cyrsiau amgen ar-lein e.e. dysgu arwyddo BSL. Mae'r holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu'n rheolaidd gan Mr Griffiths ar Classroom blwyddyn 13.

### **Blwyddyn 12**

Disgwyliwn fod y myfyrwyr wedi cwblhau eu cyrsiau Uwch Gyfrannol, yn unol â'r amserlen flynyddol i flwyddyn 12. Byddant yn dechrau ar waith bl 13 ar y 1af o Fehefin ond mae'r myfyrwyr hynny sy'n astudio Bagloriaeth Cymru eisoes wedi derbyn gwaith y prosiect. Mae'r opsiwn gan holl fyfyrwyr blwyddyn 12 i ddilyn cwrs ar-lein gyda [www.MOOC.org](http://www.MOOC.org) a'r Brifysgol Agored <http://www.open.ac.uk> neu unrhyw sefydliad arall. Yn ogystal, dylai'r myfyrwyr wneud ymchwil i wahanol gyrsiau Prifysgol yn ogystal â dechrau llunio datganiad personol ar gyfer eu ffurflen UCAS. Mae'r holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu'n rheolaidd gan Miss Clement-Jones ar Classroom blwyddyn 12.

### **Blwyddyn 11**

Disgwyliwn fod y dysgwyr wedi cwblhau eu cyrsiau TGAU, yn unol â'r amserlen flynyddol i flwyddyn 11. Mae Penaethiaid Adran wrthi yn paratoi 'Classroom' newydd ar gyfer pob pwnc a ddysgir yn y Chweched Dosbarth. Caiff y codau i gyd eu rhannu erbyn dechrau'r hanner tymor nesaf fel y gall myfyrwyr ymuno yn ôl eu diddordeb neu fwriad ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd y myfyrwyr yn cael

eu cyfeirio i ymgymryd â thasgau / darllen deunyddiau perthnasol yn baratoad tuag at eu hastudiaethau ym mlwyddyn 12, ar yr un lefel o her. Ond ni fydd y gwaith addysgu ffurfiol yn dechrau tan fis Medi.

Diwrnod blasu gwersi: 23ain o Fehefin. Gan nad yw'n debygol y gall y diwrnod hwn ddigwydd ar safle Ysgol Glantaf, bydd cyflwyniadau a blas ar wersi yn cael eu recordio a'u rhannu ar y diwrnod gyda myfyrwyr blwyddyn 11, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol gan bennaeth y chweched. Drwy hyn, fe fydd syniad da gan y myfyrwyr o'r hyn fydd o'u blaenau yn eu hastudiaethau yn y chweched dosbarth, er mwyn medru dewis yn synhwyrol, ac ar sail profiad o'r maes astudio.

### **Blwyddyn 10**

Mae'n bwysig bod Blwyddyn 10 yn parhau i ymrwymo i'w hastudiaethau. Mae nifer o adrannau eisoes wedi sicrhau bod gwaith yr arholiadau a fwriadwyd ar gyfer Blwyddyn 10 yr haf hwn wedi'i gwblhau ac wedi symud ymlaen at waith o'r newydd. Rydym yn dal i aros am ganllawiau pellach a fydd yn cael eu rhannu ym mis Mehefin gan Cymwysterau Cymru ynghylch arholiadau TGAU 2021 cyn penderfynu a fydd y dysgwyr yn sefyll arholiad Rhifedd ym mis Tachwedd 2020 a faint o arholiadau y bydd disgwyl iddynt eu sefyll fis Mai/Mehefin 2021.

### **Blwyddyn 9**

Mae'r dysgwyr yn y broses o ddewis eu pynciau TGAU yn derfynol ar gyfer blwyddyn 10. Os nad yw eich plentyn eisoes wedi gwneud hynny, sicrhewch eu bod yn llenwi'r wybodaeth berthnasol drwy ddilyn y canllawiau ar Classroom y flwyddyn.

### **Blwyddyn 8**

Bydd manylion dewisiadau pynciau opsiwn ar gyfer blwyddyn 9 yn cael eu rhannu gyda chi a'r dysgwyr ar ôl y gwyliau hanner tymor.

### **Blwyddyn 7**

Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn gwirio Google Classroom y flwyddyn yn rheolaidd gan fod negeseuon pwysig yn cael eu rhannu yno yn gyson gan Miss Roberts a Miss Walkling.

### **Pontio Blwyddyn 6**

Os oes gennych blentyn ym mlwyddyn 6 mae Safle Pontio <https://sites.google.com/glantaf.cymru/pontio-glantaf/hafan> wedi'i sefydlu gan Miss Roberts (Arweinydd Cynnydd a Lles Blwyddyn 7 a Phontio Blwyddyn 6) a'i dirprwy Miss Walkling. Ar y safle mae llawer iawn o wybodaeth ynghylch y broses bontio, cyngor gan ddisgyblion blwyddyn 7 a fideos sy'n ateb rhai o'r cwestiynau a godwyd gan ddisgyblion blwyddyn 6 wrth feddwl am ymuno ag Ysgol Glantaf ym mis Medi, yn ogystal â thaith o gwmpas yr ysgol.

### **Prif Swyddogion**

Llongyfarchiadau i Rhodri Ashton-Williams, Catrin Mackie, Betsan Angell Roberts a Rebecca Young ar gael eu hethol yn brif swyddogion Ysgol Glantaf ar gyfer 2020-21.

### **Cylchgrawn Newydd**

Mae Pwyllgor Addysgeg yn y Chweched Dosbarth yn lawnsio cylchgrawn newydd o'r enw Taf@af. Mae croeso i ddysgwyr o bob oedran gyfrannu eitemau a bydd y cylchgrawn yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod ansefydlog hwn. Mae ein myfyrwyr yn y chweched dosbarth eisiau cryfhau cymuned yr ysgol

ymhellach trwy ddarparu llwyfan i'r disgyblion rannu eu hanes a'u diddordebau. Anogwch eich plant i ddilyn eu cyfrif Trydar sef [https://twitter.com/glantaf\\_tafataf](https://twitter.com/glantaf_tafataf) ble mae dolen hefyd i fideo lle mae'r pwyllgor yn cyflwyno'r cylchgrawn.

Bydd hi'n rhyfedd peidio gweld na chlywed disgyblion Ysgol Glantaf yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd dros y Sulgwyn eleni gan ei bod hithau, fel bron pob digwyddiad arall, wedi'i gohirio. Ond bydd hi'n ddiddorol gwyllo EisteddfodT – yr eisteddfod rithwir - i weld a fydd unrhyw ymgais a anfonwyd gan ddisgyblion yr ysgol yn cael clod gan y beirniaid.

Eto, gofawch am eich teuluoedd a'ch gilydd gan roi blaenoriaeth i les corfforol a meddyliol. Cadwch yn ddiogel a dilynwch ganllawiau'r llywodraeth.

**Alun Davies a Staff Glantaf**